

## NODWCH Y DYDDIAD

### Seminar Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru

#### Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur ar gyfer 25 Ionawr 2018

Bwriad Seminar Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru yw sicrhau bod yna ymwybyddiaeth eang o bolisi ac ymarfer ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru yn ystod 2018/19 i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu yn unol ag argymhellion adolygiad Diamond.

Bydd mynychwyr yn derbyn trosolwg cynhwysfawr o'r polisi cymhwysedd a hawl, arweiniad ar weithdrefnau gweinyddol darparwyr a'r cyfle i ymgysylltu a rhyngweithio gyda chydweithwyr yn y sector, er mwyn cyflawni ymagwedd gyson a chydlynol i hyrwyddo a gweinyddu'r pecynnau cefnogaeth AU i israddedigion ac ôl-raddedigion i fyfyrwyr Cymreig rhan-amser ac amser llawn.

#### Pwy Ddylai Fynychu

Byddem yn annog y canlynol i fynychu:

- Staff sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth ac arweiniad i fyfyrwyr yng Nghymru, o Ddarparwyr Addysg Uwch (HEPs), cynghorwyr gyrfaoedd ac arbenigwyr recriwtio.
- Staff HEP o wasanaethau Cofrestrfa, Derbyniadau a Chymorth i Fyfyrwyr sy'n ymwneud â threfniadau gweinyddu cyllid i fyfyrwyr.

#### Manteision Mynychu

Bydd y seminar yn rhoi'r canlynol i'r sawl a fydd yn mynychu:

- Dealltwriaeth lawn o'r polisi ynghylch cymhwysedd a hawl, a fydd yn galluogi'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â gwybodaeth ac arweiniad i ddarparu gwybodaeth glir am gyllid i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr newydd.
- Arweiniad clir i gynllunwyr cyrsiau AU er mwyn sicrhau bod meini prawf cymhwysedd cwrs yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn y cynllun ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018/19 a thu hwnt.
- Gwybodaeth fanwl am yr amserlen weithredu, gan sicrhau bod pob partner yn glir ynghylch tasgau gweithredu a gweithgareddau paratoi ar gyfer ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr.
- Sianel adborth i'r sawl a fydd yn mynychu, er mwyn cynnig dirnadaeth i Lywodraeth Cymru ac SLC, er mwyn addasu cynlluniau yn y tymor byr a chofrestru gwelliannau posibl ar gyfer blynyddoedd academaidd yn y dyfodol.

#### Gweithdai Ffocws

Bydd modd mynychu sesiynau llawn a sesiynau gweithdy trwy gydol y diwrnod, a bydd y sesiynau hyn yn darparu gwybodaeth gyffredinol bwysig am wasanaethau i fyfyrwyr a detholiad o feysydd pwnc arbenigol, fel yr amlinellir isod:

- Cymhwysedd a Hawl i'r Benthyciad Ôl-raddedig (PGL) a'r Benthyciad Israddedig
- Cynllun a strwythur cyrsiau
- Lwfans i Fyfyrwyr Anabl
- Y broses ad-dalu
- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Presenoldeb myfyrwyr ac adrodd am hynny

#### Dyddiad a Lleoliad

Dydd Iau 25 Ionawr, 2018

Gwesty Mercure Holland House Caerdydd, 24 – 26 Heol Casnewydd, De Morgannwg, Caerdydd, CF24 0DD

#### Sut i Gofrestru

Disgwylir i'r broses gofrestru agor tua chanol mis Tachwedd. Byddwn yn anfon nodyn atoch i'ch atgoffa o'r ffaith bod y broses gofrestru ar agor, ynghyd â manylion ynghylch sut i gofrestru gan ddefnyddio gwefan gofrestru ar-lein SLC. Ni chodir tâl am fynychu'r seminar hon.

Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, [cysylltwch](#) â'r

Tim Digwyddiadau | Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Ffôn: 0141-306 2154 | E-bost: [events@slc.co.uk](mailto:events@slc.co.uk) | Gwefan: <http://www.events-slc.co.uk>